# Gwarchod perchenogaeth eich gwaith a hybu eich incwm yn y diwydiant cerddoriaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwarchod perchenogaeth eich gwaith a hybu eich incwm yn y diwydiant cerddoriaeth. Mae hyn ar wahân i ffioedd llawrydd dyddiol ac yn ymwneud yn benodol gydag eiddo deallusol, hawlfraint, breindaliadau a gwarchod perchenogaeth eich gwaith ar gyfer y dyfodol ym Mhrydain.

Mae'r safon hon yn ymwneud â gofalu eich bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf o ran deddfwriaeth ac ymarfer, adnabod eich hawliau, trin a thrafod cytundebau sy'n cydnabod eich hawliau, gofalu bod trefniadau ar gyfer taliadau mewn lle a pharchu hawliau pobl eraill.

Mae'r safon hon ar gyfer peirianwyr recordio llawrydd, peirianwyr golygu, peirianwyr meistroli, peirianwyr cymysgu a rhaglenwyr.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gofalu eich bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf o ran deddfwriaeth ac ymarfer yn ymwneud ag eiddo deallusol (IP), hawlfraint a breindaliadau yn y diwydiannau cerddoriaeth a sain
2. adnabod yr holl gyfleoedd ynghlwm â'ch gwaith yn ymwneud â pherchenogaeth eiddo deallusol, hawlfraint a breindaliadau
3. gofalu bod eich cytundebau yn cydnabod unrhyw berchenogaeth eiddo deallusol a hawliau hawlfraint posib sydd gennych chi
4. cofrestru eich gwaith trwy'r adnoddau cywir ar adegau priodol
5. gofalu bod yr holl systemau ichi dderbyn unrhyw incwm parhaus am eich gwaith mewn lle
6. gofalu eich bod yn cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol yn ymwneud ag eiddo deallusol a hawliau hawlfraint pobl eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. dulliau perchenogaeth eiddo deallusol ym Mhrydain, trosglwyddo hawliau, hawliau cydamseru a therfynu Hawlfraint
2. fframweithiau cyfreithiol, deddfwriaeth a chytundebau ar gyfer y diwydiant cerddoriaeth gan gynnwys cytundebau Hawlfraint
3. sut i ennill incwm yn y diwydiannau sain a cherddoriaeth drwy freindaliadau
4. rôl cynhyrchwyr a pheirianwyr yn y byd cerddoriaeth ym Mhrydain
5. ffrydio, dosbarthu digidol a chredydau, problemau a gwybodaeth metadata
6. asiantaethau casglu a'u rôl ym Mhrydain
7. mudiadau incwm cerddoriaeth i aelodau a'u rôl
8. rheolwyr gynhyrchwyr ym Mhrydain a'u rôl
9. y mudiadau ym Mhrydain sy'n benodol i gynhyrchwyr a pheirianwyr
10. sut i reoli deunydd sain pobl eraill ynghyd â beth ddylid ei wneud a beth na ddylid ei wneud gyda deunydd sain pobl eraill (caniatâd/hawliau)
11. hawlfreintiau ac enillion incwm ar gyfer cyd-ysgrifenwyr ac ysgrifenwyr caneuon
12. y defnydd o gyfrannau ysgrifenwyr ar ffurflenni PRS for Music ar gyfer “gweithiau newydd” a phryd maen nhw’n briodol
13. effaith lladrata Eiddo Deallusol cerddoriaeth ar yr economi ac effaith lawr lwytho anghyfreithlon ar yr artist a’r cwmnïau record
14. cytundebau i gynhyrchwyr, ail-gymysgwyr a pheirianwyr recordio rhwng y cwmni record a'r artist
15. trefniadau a hawliau sylfaenol gyda gwaith datblygu megis Cynhyrchydd ac Artist(iaid)
16. ystyr tebygol system 'pwynt canran' cynhyrchwyr

CCSMT15

Gwarchod perchenogaeth eich gwaith a hybu eich incwm yn y diwydiant cerddoriaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative and Cultural Skills |
| **RCU gwreiddiol** | CCSMT27 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Peirianwyr Meistroli, Peirianwyr Recordio, Cynhyrchwyr Recordio, Peirianwyr Cymysgu, Peirianwyr Cynorthwyol, Peirianwyr Darllediadau tu allan / ôl gynhyrchu, Gweithredwyr Tapiau, Cyfansoddwyr Cerddoriaeth Ffilm, Ysgrifenwyr, Cyn ac ôl Gynhyrchu, Peirianwyr Golygu |
| **Cyfres/Set** | Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | Eiddo Deallusol; IP; Hawlfraint; Breindaliadau; Cytundebau; Cerddoriaeth; Sain; Recordio Sain; Technoleg Cerddoriaeth |